# CYMDEITHAS TREFTADAETH DYFFRYN CONWY CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH 2025-26

Mae Cymdeithas Treftadaeth Dyffryn Conwy yn gwahodd ceisiadau ar gyfer ei gystadleuaeth ffotograffiaeth 2025-26.

## Y THEMA

Sefydlwyd y Gymdeithas i hyrwyddo diddordeb yn amgylchedd adeiledig a naturiol Dyffryn Conwy.

Thema'r gystadleuaeth ydi rhinweddau arbennig Dyffryn Conwy.

Mae'r thema yn agored i ddehongliad personol.

Gall rhinweddau arbennig gynnwys, ond nid ydynt yn cael eu cyfyngu i:

- trefi a phentrefi, adeiladau, waliau cerrig ac strwythurau eraill, hen a newydd, yn cynnwys enghreifftiau o adferiad addas o hen adeiladau
- coed, coedlannau, gwrychoedd, afonydd, llynnoedd, mynyddoedd a dyffrynnoedd sy'n creu'r tirlun ehangach
- nodweddion eraill o ddiddordeb cyhoeddus, er enghraifft cofebau
- y gymuned amaethyddol ac effaith pobl ar y tirlun

Mae dau gategori. Mae'r categori IFANC yn agored i gystadeluwyr sy'n 16 oed a iau ar 9 Awst 2025. Mae'r

categori OEDOLION yn agored i'r rhai sy'n 17 oed a throsodd ar 9 Awst 2025.

Drwy gystadlu yn y gystadleuaeth mae cystadleuwyr yn cytuno i gadw at reolau'r gystadleuaeth.

**RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH**

1. Rhaid i ffotograffau sy'n cael eu cyflwyno i'r gystadleuaeth:
    1) ddangos rhyw elfen o thema'r gystadleuaeth
    2) fod wedi eu tynnu o fewn ffiniau'r gystadleuaeth – gweler isod
    3) fod wedi eu tynnu rhyw bryd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (ers Gorffennaf 2015)
    4) fod yn ganlyniad o broses ffotograffig gan ddefnyddio camera, ffôn clyfar neu ddull digidol arall o dynnu llun
    5) fod mewn JPG o ansawdd uchel, o leiaf 1MB o faint ond dim mwy na 7MB. Mae sgan ansawdd uchel o sleid neu negatif hefyd yn dderbyniol
    6) beidio cynnwys dyfrnod, ymyl o'u cwmpas na llofnod
    7) fod yn waith gwreiddiol y cystadleuydd a rhaid iddo/i fod yn berchen ar yr hawlfraint

8) gael eu cyflwyno yn ddigidol gan ddefnyddio'r cyfleuster uwchlwytho ar wefan y Gymdeithas.

2. Rhaid i gystadleuwyr:
    1) lenwi'r cyfan o'r ffurflen gystadlu sydd ar wefan y Gymdeithas
    2) ddatgan yn lle y tynnwyd y ffotograff
    3) fod wedi cael caniatâd unrhyw unigolyn y gellir ei adnabod mewn unrhyw un o'r lluniau (neu ganiatâd rhiant/warcheidwad ar gyfer plant).

3. Gall pob cystadleuydd gyflwyno uchafswm o ddau ffotograff.
4. Gall y ffotograff fod yn ddu a gwyn neu mewn lliw and mewn unrhyw gymhareb agwedd (*aspect ratio*) – mewn fformat tirlun, sgwâr neu bortread.
5. Caniateir golygu neu atgyffwrdd (*retouch*) delweddau digidol ar yr amod fod yr holl waith yn waith gwreiddiol ac nid yn gopïau o waith pobl eraill.
6. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bawb.
7. Mae cystadleuwyr yn rhoi hawl i'r Gymdeithas i addasu, atgynhyrchu, argraffu neu arddangos eu ffotograffau mewn unrhyw gyfrwng (yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i gopïau ffisegol, copïau electroneg ac ar y cyfyngau cymdeithasol) er mwyn hybu a hyrwyddo

gwaith y Gymdeithas. Ni fydd unrhyw ffi yn daladwy am unrhyw ddefnydd a wneir o’r ffotograffau.

8. Bydd y cystadleuwyr yn cadw hawlfraint y ffotograff(au).
9. Bydd panel wedi ei ddethol gan Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas yn beirniadu’r ceisiadau.
10. Mae gan y panel yr hawl i wrthod derbyn ffotograffau nad ydynt yn cydymffurfio â’r amodau a thelerau.
11. Mae penderfyniad y panel yn derfynol, ac ni ymgymerir ag unrhyw ohebiaeth ynglŷn a’r broses o feirniadu.
12. Bydd y Gymdeithas yn casglu data personol am y cystadleuydd (a rhiant/warcheidwad lle bo’n briodol) er mwyn gweinyddu’r gystadleuaeth a gweithgaredd cysylltiedig. Dim ond at bwrpas gweinyddu’r gystadleuaeth ac i briodoli’r ffotograff i’r cystadleuydd fydd y data’n cael ei ddefnyddio.
13. Ni fydd unrhyw ffotograff a gyflwynir yn cael ei ddychwelyd.
14. Ni fydd y Gymdeithas yn atebol am unrhyw golled neu niwed a ddaw i ran y cystadleuydd mewn perthynas â’r gystadleuaeth yma.

**DYDDIAD CAU**

Bydd y gystadleuaeth yn cau am hanner dydd ar Ddydd Sadwrn 1af Tachwedd.

Ni dderbynnir ceisiadau a ddaw i law ar ôl yr amser cau.

Cyhoeddir yr enillwyr yn Ionawr 2026.

## GWOBRAU

Bydd yr enillwyr yn y categori ifanc ac oedolion yn derbyn £75 yr un.

Bydd y sawl sy'n dod yn ail (Canmoliaeth Uchel) yn y categori ifanc ac oedolion yn derbyn £50 yr un.

Cyflwynir y gwobrau mewn seremoni wobrwyo yn Ionawr 2026. Rhoddir gwybod i'r enillwyr a'r rhai sy'n cael canmoliaeth uchel cyn y dyddiad hwn.

Dim ond os bydd ffotograff yn ennill neu'n derbyn canmoliaeth uchel fydd y Gymdeithas yn cysylltu â'r cystadleuwyr.

## FFIN Y GYSTADLEUAETH

Rhaid i'r ffotograff fod wedi ei dynnu o fewn ardal o ddiddordeb y Gymdeithas. Mae map yn dangos yr ardal o ddiddordeb – sef FFINIAU'R GYSTADLEUAETH – ar wefan y Gymdeithas – www.cymdeithastreftadaethdyffrynconwy.org – a cheir copi isod.



Llandudno Junction
Conwy
A55
Llansantffraid Glan Conwy
Conwy
Henryd
B5106
Ty'n-y-groes
Rowen
Tal y Fan
610m
Bodnant Gardens
Tal-y-cafn
Afon Roe
Llanbedr-y-cennin
Pen y Gaer
Eglwysbach
Tal-y-bont
A470
B5113
Foel Fras
942m
Dulyn
Dolgarrog
Maenan
Porth-llwyd
Ddu
Carnedd Llewelyn
1064m
Llanddoged
Carnedd Dafydd
1044m
Trefriw
A548
Llyn Cowlyd
Llyn Geirionydd
Llanrwst
Llyn Ogwen
Castell Gwydir
Llyn Crafnant
A5
Capel Curig
Glyder Fach
994m
Llugwy
A4086
Betws-y-Coed
B5113
Moel Siabod
872m
A470
Castell Dolwyddelan
Lledr
Conwy
A5
Pentrefoelas
A543
Machno
Dolwyddelan
Penmachno
B4407
Moel Penamnen
614m
Cwm Penmachno
Ysbyty Ifan
Llyn Conwy
Conwy
3mi
5km
Migneint